



Gweithdrefnau Diogelu Cymru

‘Beth sy’n Wahanol?’

Diogelu Plant

**Canllaw Cyflym i Newidiadau
Allweddol**

Mae'r newidiadau allweddol a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn wedi'u nodi gan grŵp gorchwyl o ymarferwyr diogelu.

Gyda'r gweithdrefnau newydd i blant, mae llawer o'r newidiadau yn ymwneud â'r pwyslais a roddir ar agweddau fel cyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar unigolion, eiriolaeth, defnyddio ymarfer myfyriol a barn ymarferwyr ac ati, yn hytrach na'r broses o ddiogelu, sy'n aros heb ei newid gan mwyaf. Mae nifer o dermau newydd wedi'u cyflwyno hefyd ('Adrodd', 'Sawl Sy'n Adrodd', 'Cydllynydd Arweiniol', 'Ymarferydd Arweiniol' ac ati).

Mae rhai agweddau yn y gweithdrefnau newydd yn aros yn agored i rywffaint o ddehongliad gwahanol, felly os bydd unrhyw un sy'n darllen y canllaw hwn yn pryderu am unrhyw agwedd ar y wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru er mwyn i unrhyw faterion neu bryderon gael eu hanfon i'r Bwrdd Prosiect Cenedlaethol.

Adran 1

EGWYDDORION DIOGELU AC ARFER EFFEITHIOL: PLANT

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, deddfwriaeth ategol, arweiniad a'r gweithdrefnau. Mae'n dweud bod arfer effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os oes cysonder ym mhob un o'r uchod. Yn yr adran hon, darperir diffiniadau o blant sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion o gamdriniaeth.

Mae diogelu effeithiol yn golygu bod angen i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan yn y broses a bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad, a'u dilyn. Mae'r canllawiau '*Handling Individual Cases*' yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai ategu systemau diogelu ar gyfer plant mewn perygl.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Cyflwyno Cam-drin Seicolegol a Cham-drin Ariannol fel categorïau ar wahân yn y gweithdrefnau plant.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio Troseddol (CCS), Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Radicaleiddio, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Chaethwasiaeth Fodern.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r ffaith y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar blant; Mae hawliau'r plentyn o'r pwys mwyaf. Rhaid ceisio barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed.

- Wrth roi ystyriaeth i les gorau'r plentyn, dylid rhoi ystyriaeth i'w barn cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol.
- Pwysleisir fod gan bob unigolyn sy'n gweithio gyda phlant ran i'w chwarae o ran diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
- Mae'r gweithdrefnau yn mabwysiadu term cynhwysfawr 'Ymarferwyr' ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n ymwneud â nhw (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr di-dâl a chyflogaeth am dâl).
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio bod dyletswydd ar bawb i ddiogelu plant, ac mae unrhyw un sy'n dod i gyswllt â phlentyn mewn perygl, neu sy'n gweithio gyda nhw yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau i'r plentyn hwn i sicrhau ei ddiogelwch.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn hyrwyddo cyd-gynhyrchu rhwng asiantaethau a gwasanaethau i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal a chefnogaeth briodol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-gynhyrchu gyda'r plentyn/person ifanc, gan ddatblygu perthnasoedd gweithio gyda'r plentyn, person ifanc a'r teulu (Yn unol â '*Beth sy'n Bwysig i'r plentyn a'r Teulu*' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth fel bo'r gofyn i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn/ person ifanc, gan gynnwys eu cadw'n ddiogel os bydd y plentyn/person ifanc yn profi a/neu yn debygol o brofi niwed sylweddol parhaus.
- Mae Gofal a Chymorth yn dal i fod yn berthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw angen na ddiwallwyd os na welir bod y plentyn/person ifanc mewn perygl o niwed sylweddol.
- ACES – Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu bod disgwyl i ymarferwyr asesu plant a'u teuluoedd yn drylwyr i ystyried effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (ACES) a allai fod wedi effeithio ar gapasiti'r rhieni i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc.
- Mae mwy o bwyslais ar help ac ymyrraeth cynnar i leihau'r angen am ymholiadau diogelu ac ymyrraeth.

Adran 2

Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM BLENTYN SYDD MEWN PERYGL O GAEL EI GAM-DRIN, EI ESGEULUSO A/NEU EI NIWEIDIO

Nid oes newidiadau mawr o ran y Ddyletswydd i Adrodd oherwydd mae wedi bod yn ofyniad ers sawl blwyddyn ac mae arfer presennol yn adlewyrchu hyn i raddau helaeth. Mae'r gweithdrefnau newydd yn mabwysiadu rhai termau newydd, ac amlinellu cyfrifoldebau rolau 'Sawl Sy'n Adrodd' ac Unigolyn Diogelu Dynodedig wrth

symud ymlaen. Mae'r gweithdrefnau newydd yn glir fod y Ddyletswydd i Adrodd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun gweithio. Mae pwyslais wedi'i roi ar arfer sy'n cefnogi cynnal/ datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu, a hefyd cyd-gynhyrchu a chydweithredu gydag asiantaethau eraill. Mae'r awgrymiadau arfer newydd yn cefnogi cynnal ymgysylltiad cadarnhaol rhwng ymarferwyr plant/pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gweithdrefnau yn amlygu defnydd o ymarfer myfyriol a barn ymarferwyr er mwyn galluogi canlyniadau gwell i blant/ pobl ifanc.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Mae'r term 'Adrodd' wedi'i fabwysiadu yn hytrach nag 'atgyfeiriad'.
- Mae'r term 'Sawl sy'n Adrodd' (gweler Adran 3, rhan 1) wedi'i fabwysiadu ac mae'n cyfeirio at sawl sy'n gwneud atgyfeiriad.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r ffaith y gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw leoliad, h.y. gweithgareddau cymunedol, cyfleusterau preswyl, clybiau, ar-lein neu unrhyw blatfform cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP) – dylai pob asiantaeth y tu allan i'r Awdurdod Lleol fod â DSP (ac amlinellu trefniadau mewnol ar gyfer cyfrifoldebau DSP wedi'u datganoli yn y polisi diogelu). Bydd angen i bob aelod o staff wybod pwy yw DSP y sefydliad a/neu at bwy arall gallant fynd i gael cefnogaeth a chyngor os yw cyfrifoldebau'r DSP wedi'u datganoli).
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer rôl y DSP.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn awgrymu, os na fydd DSP y sefydliad neu unigolyn/unigolion mewnol eraill ar gael, dylai ymarferwyr ofyn am gefnogaeth/trafod pryderon gyda'r Awdurdod Lleol (ALI).
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi cyfrifoldebau'r 'Sawl sy'n Adrodd' (atgyfeiriwr gynt).
- Dylid trafod unrhyw ansicrwydd dros adrodd am bryder gyda'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r cyfrifoldeb dros gyflwyno adroddiad (atgyfeiriad) yn aros gyda'r ymarferydd, hyd yn oed os byddant yn trafod gyda'r DSP neu Awdurdod Lleol – ni ddylid cymryd yn ganiataol bod trafodaeth ar lafar gyda'r DSP, ALI ac ati, yn ddigonol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r ffaith y dylai'r ymarferydd sy'n gwneud yr adroddiad (atgyfeiriad) geisio cael caniatâd gan riant neu ofalwr; Mae hyn yn cefnogi perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Os oes unrhyw amheuaeth am geisio caniatâd, dylid cynnal trafodaeth gyda'r ALI.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn darparu canllawiau am geisio caniatâd:

Dylai ymarferwyr geisio caniatâd gan y rhieni i hyrwyddo partneriaeth weithio effeithiol gyda'r teulu.

Dylid ymgynghori â phlant hefyd, os ydynt yn gymwys, a dylid cael eu caniatâd. Mae'n bwysig ymgysylltu plant yn y broses mor gynnar ag sy'n bosibl i sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried lle bo'n bosibl ac er mwyn eu hatal rhag bod yn 'wrthrychau sy'n peri pryder' yn unig.

Mae dyletswydd ar ymarferwyr i adrodd am achosion a amheuir o gamdriniaeth ac esgeulustod – gyda chaniatâd y plentyn neu hebdo. Nid yw hyn yn golygu na ddylent geisio cael ganiatâd.

Gallai dymuniad y plentyn a'r rhiant/rhieni i beidio ag adrodd gael ei ddiystyru os bydd ymarferwyr yn ystyried bod angen adrodd o hyd.

Mae'r gweithdrefnau yn darparu canllawiau o ran pryd gallai fod yn amhriodol i geisio caniatâd rhieni:

- posibilrwydd y byddai'r plentyn yn cael ei roi mewn rhagor o berygl;
- posibilrwydd y byddai'r plentyn yn cael ei fygwth neu ei orfodi fel arall i gadw'n dawel;
- tebygolrwydd cryf y byddai tystiolaeth bwysig yn cael ei dinistrio/cholli;
- y rhiant yn cael ei nodi fel y camdriniwr honedig;
- y plentyn dan sylw ddim am i'r rhiant fod yn rhan o'r mater ar y cam hwnnw ac mae'n gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
- mae er budd y cyhoedd.

Dylai ymarferwyr drafod a yw'n briodol ceisio caniatâd gan y plentyn a'r rhieni gydag unigolyn diogelu dynodedig (DSP) eu hasiantaeth. Os gwneir y penderfyniad i beidio ceisio caniatâd, rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn.

- Ni ddylai ymarferwyr ei adael i aelod o'r cyhoedd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu gynghori'r unigolyn i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol. Mae gan yr ymarferydd Ddyletswydd i Adrodd am bryderon a gaiff eu codi gan aelod o'r cyhoedd. Mae gan ymarferwyr gyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryderon y tynnir eu sylw atynt gan y cyhoedd – yn eu gwaith a'u bywydau preifat. Mae'r gweithdrefnau yn darparu canllawiau ychwanegol ar ymateb i aelodau'r cyhoedd sy'n trafod pryder o ran diogelu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio bod y Ddyletswydd i Adrodd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun gweithio os bydd ymarferydd yn dod yn ymwybodol o ymddygiad pryderus gan ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog sydd hefyd yn ymarferydd, rhaid iddynt adrodd am eu pryderon, p'un a yw'r plentyn/person ifanc yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes ai peidio.

Camau gweithredu/ gwaith a nodwyd:

Mae angen rhagor o eglurder o ran y terfyn amser a nodir yn y gweithdrefnau newydd ar gyfer galw cynhadledd amddiffyn plant, h.y. o fewn 15 diwrnod i'r cyfarfod trafodaeth strategaeth lle penderfynwyd bod angen Ymholiadau Adran 47. I gyferbynnu â'r drefn flaenorol, sef o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth, neu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth olaf os oes mwy nag un wedi bod, a ddechreuodd yr ymholiadau adran 47 amddiffyn plant.

Adran 3, Rhan 1

YMATEB I ADRODDIAD AM BLENTYN MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD A/NEU NIWED

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar gyfer ymateb i adroddiad— gan gynnwys amlinellu rolau'r 'Sawl sy'n Derbyn yr Adroddiad', cysylltu â'r Heddlu a nodi'r broses ar gyfer ymateb i adroddiad – mae hyn yn cynnwys ymholiadau A47 a'r broses ar gyfer trafodaeth / cyfarfod y strategaeth a gweithdrefnau o ran sefyllfaoedd cymhleth.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod derbyn adroddiad yn ysgrifenedig cyn pen 7 diwrnod gwaith
- Bydd aelodau'r cyhoedd yn cael cydnabyddiaeth eu bod wedi cael eu hadroddiad o fewn terfyn amser priodol
- Gall Sawl sy'n Derbyn yr Adroddiad (h.y. tîm Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu, tîm MASH ac ati) ofyn am wybodaeth gan ymarferwyr a gwasanaethau eraill i gael gwybodaeth ddigonol i benderfynu wrth wneud penderfyniadau; mae gan ymarferwyr ddyletswydd i gydweithio a darparu gwybodaeth dan adran 164 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Dylid gwneud penderfyniadau ar ôl derbyn adroddiad (gan roi ystyriaeth i'r holl wybodaeth), os yw anghenion y plentyn yn ddigonol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Os felly, dylid asesu'r plentyn dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- RHAID gweld y plentyn YR UN DIWRNOD os yw'r canlynol yn wir:
 - Cafwyd adroddiad i ddweud bod y plentyn wedi cael anaf corfforol.
 - Mae'r plentyn wedi datgelu ei fod yn dioddef cam-drin corfforol a / neu rywiol ac mae am gael ei ddychwelyd i'r sefyllfa a allai ei roi mewn perygl.
 - Mae'r plentyn eisoes yn destun Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant.
 - Mae'r plentyn wedi'i adael.
 - Mae'r plentyn yn dioddef esgeulustod difrifol neu risgiau iechyd difrifol eraill.

- Rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu gytuno a ddylai'r plentyn ddychwelyd gartref.
- Pan na fydd plentyn wedi'i weld ar yr un diwrnod, RHAID cofnodi'r broses hon o wneud penderfyniad ar ffeil y plentyn.
- Dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y plentyn/person ifanc am ganlyniad yr adroddiad dilynol ac mae angen caniatâd i ddechrau asesiad dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oherwydd bod anghenion gofal a chefnogaeth wedi'u nodi.
- Rhaid rhoi ystyriaeth i blant eraill yn yr aelwyd, ac oedolion sydd mewn perygl.
- Dylid ystyried a ellir rhoi Cynllun Gofal a Chymorth ar waith.

Cyfarfod Strategaeth ac Ymchwiliad A47

- Pan fo'n bryder o ran Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan un plentyn tuag at blentyn arall, dylid cynnal cyfarfodydd strategaeth ar wahân ar gyfer pob plentyn.
- Rhaid cadw cofnod o'r drafodaeth / cyfarfod strategaeth ac mae angen rhannu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith (yn hytrach na 5 diwrnod gwaith fel a amlinellir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan).
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno amserlen ar gyfer ymholiadau A47 cynllunio amlasiantaeth – h.y. pwy sy'n gwneud beth, mae'r gweithdrefnau newydd yn mynd i fwy o fanylder am y cynllunio a'r ymchwiliad, profiad byw y plentyn (yn wahanol i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan).
- Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb arweiniol am yr ymholiadau. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n arwain yr ymholiadau fod yn gymwys a bod wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Dylent hefyd gael goruchwyliaeth briodol.
- Mae dyletswydd ar [ymarferwyr](#) eraill, fel yr heddlu, iechyd, addysg a phartneriaid perthnasol eraill i gydweithio a helpu'r gwasanaethau cymdeithasol i gynnal eu [ymholiadau](#).
- Rhaid i brosesau rhannu gwybodaeth rhwng nifer o asiantaethau fod yn angenrheidiol a chymesur, ond hefyd yn ddigonol, amserol, diogel ac wedi'u cofnodi, h.y. cofnodi'r wybodaeth yn ysgrifenedig, beth sydd wedi'i rannu a pham.
- Disgwylir i bob ymarferydd gymryd perchnogaeth o'r wybodaeth maen nhw wedi'i chyfrannu i'r ymholiad A47 a dylent sicrhau bod rhieni a phlant yn ymwybodol o ba wybodaeth sydd wedi'i chynnwys.

- Dylid cadw gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei rhannu gyda'r teulu a/neu aelodau penodol o'r teulu i'r lefel isaf bosibl, ynghyd â sail resymegol glir dros beidio rhannu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn ymestyn i ymholiadau A47 a'r ymchwiliad.

Archwiliad Meddygol

- Mae amserlen ar gyfer cynnal archwiliad meddygol pan fu honiad o gam-drin rhywiol wedi'i gadael allan o'r gweithdrefnau newydd.
- Dylai Paediatregydd gyda chymwysterau Lefel 3 yn unol â Diogelu Plant a Phobl Ifanc gynnal asesiad o'r plentyn.
- O ran diffyg caniatâd rhieni, mae'r gweithdrefnau newydd yn cyfeirio at Orchymyn Asesu Plentyn a Gorchymyn Amddiffyn Mewn Argyfwng a gellir eu gwneud a'u cyfarwyddo gan y llys er mwyn i rieni gydweithredu.
- Nid yw'r Adroddiad Meddygol yn dilyn archwiliad yn darparu terfyn amser o ran pryd ddylai'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu bellach.

Ymholiadau A47, dadansoddi a gwneud penderfyniadau

- Rhagor o bwyslais ar ddadansoddi gwybodaeth, a ddylai ystyried pryderon o ran ymarferydd, materion sy'n effeithio ar iechyd a lles y plentyn ac ansawdd eu profiad byw.
- Rhagor o bwyslais ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn, y cryfderau a nodwyd (a oes 'ffactorau amddiffyn' digonol) i atal niwed hirdymor i'r plentyn.
- Mae'n cyflwyno ystyriaeth o ran ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar y plentyn a'u teulu, yn ogystal â materion sy'n ymwneud ag oedolion sy'n effeithio ar y gallu i fagu plant.

Tynnu ar ddadansoddiad A47 a gwneud penderfyniadau

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn darparu canllawiau ychwanegol am asiantaethau'n cofnodi penderfyniadau A47 a phenderfyniadau allweddol, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn adlewyrchu'r broses ymholiadau amddiffyn plant yn llawn.
- Mae nodiadau bras ymarferydd yn dystiolaeth o beth gafodd ei ysgrifennu ar y pryd, felly, ni ddylid eu dinistrio pan gaiff manylion eu cofnodi'n fwy ffurfiol, dylent gael eu cadw'n ddiogel rhag ofn bod eu hangen mewn unrhyw achosion cyfreithiol dilynol.

Adran 3, Rhan 2

CYNADLEDDAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AC AMDDIFFYN PLANT CYCHWYNNOL

Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi rhagor o bwyslais ar ymgysylltu â'r plentyn a'u teulu yn y broses hon. Mae perthnasoedd yn fwyaf tebygol o ddatblygu os caiff rhieni eu trin â pharch, empathi, cynhesrwydd, os gwrandewir arnynt, os siaredir â nhw'n onest ac os caiff yr anghydbwysedd grym ei ystyried.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi canllawiau ar gyfer ymholiadau Adran 47, gwneud penderfyniadau, a chynhadledd amddiffyn plant ac mae'n cyflwyno 'penderfyniadau' newydd.

Mae'r gweithdrefnau yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog ysgrifenedig ar gael, sy'n nodi pwrpas, proses a chanlyniadau posibl ymholiadau A47 amddiffyn plant.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Newidiadau o ran iaith a defnyddio termau fel 'Adrodd', 'Ymarferwyr', 'Swydd o Ymddiriedaeth'.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn darparu manylion am bwy mae'r rhai sydd mewn 'Swydd o Ymddiriedaeth' yn cyfeirio atynt...ond mae hyn yn ymestyn ar beth gaiff ei gydnabod yn gyfreithiol ar hyn o bryd.
- Roedd pum 'sbardun' posibl ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant yn cael eu hamlinellu yn flaenorol, ni chaiff y rhain eu defnyddio/ ni chyfeirir atynt yn y gweithdrefnau newydd.
- Categoriâu newydd o ran cam-drin ariannol, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol. Yn yr eirfa mae'r rhain ar wahân, ond maent dan un categori ar gyfer cofrestru.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu penderfyniadau yn dilyn cynnal ymholiadau A47 fel a nodir isod – roedd y penderfyniadau hyn yn yr hen weithdrefnau ac felly nid ydynt wedi newid, fodd bynnag, mae camau gweithredu yn dilyn y rhain wedi newid:

Penderfyniad 1 – Pryderon am niwed sylweddol heb eu cadarnhau

Nid yw pryderon diogelu wedi'u cadarnhau, ond dylid rhoi ystyriaeth i p'un a allai fod gan y plentyn anghenion gofal a chefnogaeth heb eu diwallu. Felly, argymhellir asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth dan adran 20 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant neu adrodd wrth wasanaethau ataliol. Dylai'r penderfyniad gael ei gadarnhau gan reolwr perthnasol, a dylid anfon llythyr 'dim gweithredu pellach' at rieni.

Penderfyniad 2 – Pryderon am niwed sylweddol wedi eu cadarnhau, ond nid yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol

Yn yr hen weithdrefnau, lle gwelwyd bod yr uchod yn berthnasol, awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i benderfyniad i beidio â pharhau i gynhadledd, a byddai angen i unigolyn dynodedig â chymwysterau addas yn yr adran

gwasanaethau cymdeithasol gymeradwyo'r penderfyniad hwn. Mae'n debyg bod hyn wedi'i adael allan o'r gweithdrefnau newydd.

Penderfyniad 3 – Pryderon wedi eu cadarnhau, a bernir bod y plentyn yn profi camdriniaeth, niwed neu esgeulustod, neu ei fod mewn perygl o'u profi

Mae risg parhaus o niwed sylweddol, felly dylai'r gwasanaethau cymdeithasol alw cynhadledd amddiffyn plant.

Cynhadledd Amddiffyn Plant

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi bod rhaid i bob ymarferydd ac asiantaeth a wahoddir i fynychu cynhadledd amddiffyn plant gyflwyno adroddiad ysgrifenedig.
- Ni ddylai cynadleddau bara mwy na 2 awr fel arfer, gan fod y gweithdrefnau newydd yn cydnabod y gall hyn fod yn wrthgynhyrchiol a chael effaith andwyol ar deuluoedd ac ymarferwyr, ac felly, ansawdd y trafodion.
- Amlygir yn y gweithdrefnau newydd y dylid rhoi ystyriaeth i ddichonoldeb dadansoddi a gwneud penderfyniadau am blentyn mewn perygl a'u brodyr a'u chwiorydd yn ystod un gynhadledd, os oes pryderon sy'n ymwneud â'r plant i gyd.
- Mae mwy o bwyslais yn y gweithdrefnau newydd ar alw cynhadledd pan fydd asesiad cyn-geni yn dod i'r casgliad y gallai plentyn heb ei eni fod mewn perygl o niwed sylweddol. Nid yw'r gweithdrefnau newydd yn darparu terfynau amser ar gyfer trefnu cynhadledd, yn flaenorol, roedd hyn o fewn 8 – 16 wythnos i'r dyddiad esgor disgwylidig.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio nad yw presenoldeb gan blentyn ar ei ben ei hun mewn cynhadledd yn cyfrif fel cyfranogiad nac yn rhoi llais i'r plentyn, a dylai arferion/ egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn gael eu dilyn. Mae'r gweithdrefnau newydd yn darparu enghreifftiau o sut gellid cyflawni hyn, gan gynnwys eiriolaeth ar gyfer y plentyn a'r rhieni.
- Ni ddylai'r adroddiad cynhadledd amddiffyn plant dechreuol gynnwys argymhelliad o ran cofrestru.
- Mae angen gwybodaeth benodol gan wahanol asiantaethau ac mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu pa wybodaeth mae'n rhaid i sefydliadau sy'n cyfranogi ei darparu.
- Yn syth ar ôl y gynhadledd; pe bai'r gynhadledd yn penderfynu rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, disgwylir i'r cadeirydd a'r gweithiwr cymdeithasol dreulio amser ar ôl y gynhadledd yn egluro beth mae'n ei olygu i'r plentyn fod yn destun cynllun diogelu gofal a chymorth, beth mae cofrestru yn ei olygu, beth mae gofyn i rieni ei wneud, rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr a grŵp craidd, a sut bydd rhieni / plentyn yn rhan o'r broses hon wrth symud ymlaen.

- Gellir trafod adroddiadau meddygol Amddiffyn Plant yn y gynhadledd, ond ni ddylid eu dosbarthu gyda phapurau'r gynhadledd. Sylwch: Byddai'n arfer da crynhoi'r rhain.
- Newid o Gynllun Amddiffyn Plant i Gynllun Diogelu Gofal a Chymorth, a ddylai gynnwys pob elfen o gynllun fel a amlinellir dan Ran 4 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r gweithdrefnau yn amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau mewn cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylai'r [ymarferwyr](#) sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd benderfynu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael:
 - p'un a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o [niwed sylweddol](#) A
 - p'un a oes angen ymyrraeth amlasiantaeth a ddarperir trwy [gynllun diogelu gofal a chymorth](#) ffurfiol a chofrestru ar y [gofrestr amddiffyn plant](#)

Dylid gwneud penderfyniadau am bob plentyn unigol, gyda chanolbwynt ar niwed sylweddol gwirioneddol, tebygol, a/neu barhaus. Atgyfnerthir na all ymarferwyr ddileu eu cyfrifoldeb yn y broses gwneud penderfyniadau yn y gynhadledd.

- Plentyn nad yw mewn perygl parhaus o niwed ond sydd ag anghenion gofal a chymorth: dylid annog rhieni i barhau â'r asesiad lles dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno rôl **Cydlynedd Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth** (CSPPC) – bydd yr unigolyn hwn yn weithiwr cymdeithasol a gaiff ei gyflogi gan y gwasanaethau cymdeithasol, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd yn meddu ar gymwysterau addas a phrofiad i gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros y cynllun ar ran yr awdurdod lleol.
- Dylai fod gan bob plentyn, y mae ei enw wedi'i roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, unigolyn wedi'i enwi (h.y. Gweithiwr Cymdeithasol) a fydd yn cymryd rôl y CSPPC.
- Bydd y CSPPC yn gyfrifol am gydlynu gwaith paratoi, cwblhau, adolygu a darparu'r cynllun a'i ddiwygio.
- Yn flaenorol, y terfyn amser ar gyfer cwblhau asesiad parhaus oedd 35 diwrnod (yn AWCPP), ond mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi terfyn amser o 42 diwrnod gwaith o ddechrau'r ymholiadau A47.

Adran 4

CYNLLUNIO AC YMYRRAETH AR GYFER PLANT AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT

Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r angen am gerrig milltir sy'n canolbwyntio ar y plentyn a mesurau canlyniadau penodol i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp craidd yn deall sut fydd bywyd i'r plant adeg eu dadgofrestru. Mae Rhan 4 yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cydlynnydd Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth, a'r sgiliau a'r dull gofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

I gynorthwyo â datblygu'r cynllun, mae'r gweithdrefnau newydd wedi dylunio cwestiynau i helpu i gyflawni'r cynllun.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Mae cyfrifoldebau'r Cydlynnydd Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth yn cynnwys cydlynu gwaith paratoi, cwblhau, adolygu, darparu a diwygio'r Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno cwestiynau i gefnogi datblygiad y cynllun:
 - Dealltwriaeth a rennir o'r pryderon
 - Beth mae rhieni a'r plentyn yn dymuno ei gyflawni
 - Sut olwg fyddai ar brofiadau byw dyddiol y plentyn pe bai'r pryderon yn cael sylw
 - Mesurau canlyniadau terfynol
 - Sut fydd y grŵp craidd yn mesur newid cynyddrannol
 - Gallu a chymhelliant rhieni i ymgysylltu â'r cynllun
 - Sut i adeiladu ar gryfderau rhieni
 - Rhwystrau i newid
 - Sut gall Ymarferwyr ddangos eu hymrwymiad i gefnogi a gweithio gyda'r teulu?
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog cyfranogiad gan holl aelodau'r grŵp craidd sy'n ymarferydd. Fodd bynnag, os na fydd aelod o'r grŵp craidd yn gallu mynychu'r cyfarfod, dylent ddarparu adroddiad gyda digon o fanylion i alluogi asesiad o bob parti ac ymgysylltiad â'r cynllun.
- Mae'r gweithdrefnau yn amlygu pwysigrwydd y ffaith fod rhieni/ gofalwyr yn ymgysylltu â'r grŵp craidd a gweithrediad y cynllun.
- Mae'r gweithdrefnau yn amlinellu'r ffaith fod rhaid i ymgysylltiad ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac mae Cyd-gynhyrchu yn hanfodol.
 - Mae'r rhan hon yn cynnwys awgrymiadau arfer da ar gyfer cyflawni cyd-gynhyrchiad.
 - Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ystyriaeth / defnydd o anghenion rhieni.

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ymarferwyr i osgoi newid eu hiaith i ddisgrifio sefyllfaoedd, yn hytrach dylent fod yn ddiamwys wrth rannu eu pryderon.
- Cyfranogiad aelodau'r Grŵp Craidd mewn cynadleddau adolygu – Dylid rhannu adroddiadau pob ymarferydd gyda'r plentyn a'r teulu wyneb i wyneb lle bo'n briodol, er mwyn galluogi trafodaeth ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gynhadledd adolygu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn caniatáu dod â chynhadledd adolygu ymlaen os nad yw cynllun yn diogelu'r plentyn rhag niwed neu os yw ymarferwyr yn cael problemau sylweddol wrth weithredu'r cynllun.
- Pan fydd yn hysbys bod teulu â phlentyn y mae ei enw wedi'i gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant wedi symud, neu yn bwriadu symud, yn barhaol neu dros dro allan o ardal awdurdod lleol, rhaid i'r unigolyn sy'n cael y wybodaeth roi gwybod yn syth i'r rheolwr tîm yn ogystal â'r Cydlynnydd Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth.
- Dim newid i'r wybodaeth ysgrifenedig y mae'n rhaid ei hanfon i'r awdurdod sy'n derbyn.
- Nid oes terfynau amser wedi'u cofnodi yn y gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud ag ymateb i ymholiadau i'r CPR. Rhaid cofnodi pob ymholiad ar gronfa ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn 24 awr.

Adran 5

HONIADAU/PRYDERON DIOGELU YNGHYLCH YMARFERWYR A'R RHAI HYNNY MEWN SWYDDI O YMDDIRIEDAETH

Mae Rhan 5 yn nodi ymateb statudol yr Awdurdod Lleol i bryderon proffesiynol. Mae'r gweithdrefnau yn nodi y dylid mynd i'r afael â phryderon proffesiynol trwy broses ar wahân a all redeg ar y cyd â'r broses ddiogelu, neu yn absenoldeb plentyn mewn perygl a nodwyd, ar ei phen ei hun.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cynyddu cwmpas pwy mae hyn yn berthnasol iddynt
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio'r ddyletswydd i adrodd am bryderon am ymarferwyr (gweler adran 5), ac amlygu arwyddocâd *polisi rhannu pryderon* asiantaethau

